CYDBWYLLGOR AR FRECHU AC IMIWNEIDDIO – CAIS AM BERSON I GYNRYCHIOLI BUDDIANNAU CYMRU

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd am benodi rhywun ar y Cydbwyllgor ar Frechu ac Imiwneiddio (JCVI) i gynrychioli buddiannau Cymru.

Pwyllgor Statudol yw'r JCVI a'i orchwyl yw cynghori'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd, Gweinidogion yr Alban, Gweinidogion Gogledd Iwerddon sy'n gyfrifol am iechyd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru ar faterion sy'n ymwneud ag afiechydon heintus, rhwystradwy ac a allai fod yn rhwystradwy trwy imiwneiddio. Mae aelodaeth am gyfnod o bedair blynedd i ddechrau. Gellir ymestyn y cyfnod hwn am gyfnod pellach o bedair blynedd ond ni ellir rhoi sicrwydd o hyn.

Am wybodaeth am JCVI ewch i wefan JCVI yn www.doh.gov.uk/jcvi/index.htm.

Am wybodaeth bellach a ffurflen gais cysylltwch â Richard Griffiths, Yr Adran Iechyd, Ystafell 602A Skipton House, 80 London Road, Llundain SE1 6LH. E-bost Richad.Griffiths@doh.gsi.gov.uk

Dylid anfon ceisiadau at Richard Griffiths yn y cyfeiriad uchod erbyn dydd Gwener 4 Ebrill am hanner dydd fan bellaf. Ni fyddwn yn ystyried ceisiadau a dderbynnir ar ôl hynny.

CYDBWYLLGOR AR FRECHU AC IMIWNEIDDIO – CAIS I BERSON GYNRYCHIOLI BUDDIANNAU CYMRU

Disgrifiad swydd a manyleb person

Fel aelod o'r Cydbwyllgor ar Frechu ac Imiwneiddio (JCVI) byddwch yn gweithio gyda'r Cadeirydd a'r Aelodau eraill gan ddefnyddio eich profiad, arbenigedd a gwybodaeth i arwain gwaith y Pwyllgor a chynnig cyngor priodol i Weinidogion Iechyd y DU. Mae'r Pwyllgor yn chwarae rhan allweddol wrth ddarparu cyngor ar ddatblygu materion brechu ac imiwneiddio yn y DU a hefyd cyfrannu at bolisi brechu ledled y byd.

Byddwch yn:

- Cynorthwyo i asesu tystiolaeth gyfredol am ddiogelwch, effeithiolrwydd a phriodoldeb brechiadau;

- Cyfrannu at y cyngor a roddir i Weinidogion Iechyd y DU ar yr holl faterion sy'n ymwneud â brechiadau ac imiwneiddio;

- Ymroddedig i ddatblygiad a chynnydd parhaus polisi imiwneiddio ar imiwneiddio; ac yn

- Cyfrannu tystiolaeth berthnasol ar bediatreg a rheoli afiechyd heintus.

Hyfforddiant

Darperir hyfforddiant priodol ar gyfer aelodau newydd.

Ymrwymiad amser

Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod dair gwaith y flwyddyn. Yn ogystal â hyn mae nifer o Baneli/Is-Bwyllgorau yn cyfarfod i edrych ar faterion penodol. Efallai y bydd aelodau'n cael eu gwahodd i ymuno ag un neu fwy o'r rhain ac efallai y bydd angen neilltuo dyddiau ychwanegol. Mae angen o leiaf un diwrnod i baratoi ar gyfer pob cyfarfod. Gall yr Ysgrifenyddiaeth hefyd gysylltu ag aelodau am gyngor ar faterion penodol wrth iddynt godi.

Tâl

Ni cheir cyflog am fod ar y JCVI ond bydd aelodau'n derbyn costau teithio a chynhaliaeth ar gyfraddau arferol yr Adran Iechyd ar y pryd.

Penodiad a Daliadaeth Swydd

- Penodir aelodau am gyfnod cychwynnol o hyd at bedair blynedd.

- Gellir adnewyddu penodiadau ar ddiwedd y cyfnod cyntaf yn y swydd. Mae rhywfaint o newid yn ddymunol mewn Pwyllgorau yn aml ac ni ddylid disgwyl ailbenodi'n awtomatig.

- Er mwyn pwysleisio pwysigrwydd gwerthoedd gwasanaeth cyhoeddus yn y Pwyllgor, mae'n ofynnol i'r holl aelodau wrth eu penodi danysgrifio i God Arfer Gorau i Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus {HYPERLINK www.archive.official-documents.co.uk/document/caboff/guide.htm}.

- Dylid nodi'n benodol yr angen i ddatgelu unrhyw wrthdaro buddiannau yn ystod busnes y Pwyllgor a'r angen i ddatgelu unrhyw fuddiannau busnes perthnasol, swyddi gydag awdurdod neu gysylltiadau â chyrff masnachol, cyhoeddus neu wirfoddol.

- Yn unol ag argymhellion Nolan a Chanllawiau'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus ar benodiadau i gyrff cyhoeddus anadrannol, mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd adrodd yn flynyddol ar y penodiadau cyhoeddus a wneir i'r cyrff statudol a'r pwyllgorau y mae'n gyfrifol amdanynt. Efallai y byddwch am nodi wrth gael eich penodi i'r Pwyllgor y bydd y wybodaeth benodi bersonol a gyhoeddir yn cynnwys eich enw, oed, rhyw, cefndir, gweithgarwch gwleidyddol arwyddocaol (os o gwbl), cyfnod y penodiad, cyfraddau tâl, manylion unrhyw benodiadau cyhoeddus eraill ac unrhyw ddatganiad o fudd.

Priodweddau personol sy'n ofynnol ar gyfer Pediatrydd ar y Cydbwyllgor ar Frechu ac Imiwneiddio

Er mwyn eich cynorthwyo i benderfynu a oes gennych y priodweddau, y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen i wasanaethu fel pediatrydd ar y Cydbwyllgor ar Frechu ac Imiwneiddio , rhestrir y meini prawf a ddefnyddir wrth asesu ymgeiswyr isod.

Hanfodol

Mae'n rhaid i chi:

- Fod ag o leiaf 10 mlynedd o brofiad neu wybodaeth am y Gwasanaeth Iechyd;
- Fod â gwybodaeth am y Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru;
- Fod â gwybodaeth a phrofiad o faterion sy'n ymwneud â brechu ac imiwneiddio;
- Fod yn ymrwymedig i arferion gwaith da;
- Fod yn ymrwymedig i egwyddorion gwasanaeth cyhoeddus gyda'r gallu i berfformio dyletswyddau yn hollol onest;
- Gallu arddangos eich gallu fel cyfathrebwr rhagorol.

Dymunol

- Profiad mewn swyddogaeth gyfrannol mewn sefydliad mawr, wedi'i ennill trwy sefyllfa breifat neu gyhoeddus.

Cyfle cyfartal

Rydym yn awyddus i fenywod, pobl o leiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau gael cynrychiolaeth ddigonol yn y penodiadau cyhoeddus a wneir gan yr Adran Iechyd.

Bydd pob penodiad yn cael ei wneud ar sail teilyngdod ac ar sail asesiad annibynnol mewn proses agored ac eglur.